

RHYDDFRYDIAETH

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Rhyddfrydiaeth
2. Gwreiddiau Rhyddfrydiaeth
3. Ffrydiau Rhyddfrydol
 - a. Rhyddfrydiaeth Glasurol
 - b. Rhyddfrydiaeth Fodern
4. Elfennau allweddol Rhyddfrydiaeth
 - a. UnRhyddid
 - b. igolyddiaeth
 - c. Hawliau
 - d. Rhesymoliaeth
 - e. Cyfiawnder a chydaddoldeb
 - f. Goddefgarwch a phlwrailiaeth
5. Seiliau gwladwriaeth ryddfrydol
 - a. Cyfamod cymdeithasol
 - b. Cyfansoddiadaeth
 - c. Rhyddfrydiaeth a democratiaeth
6. Rhyddfrydiaeth, y wladwriaeth a chydaddoldeb
 - a. Rhyddfrydiaeth a chydaddoldeb
 - b. Rôl y wladwriaeth wrth sicrhau cydraddoldeb
7. Rhyddfrydiaeth a'r economi
 - a. Syniadau *laissez-faire*
 - b. Rheolaeth economaidd
8. Rhyddfrydiaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru
 - a. Tarddiad y Blaid Ryddfrydol
 - b. Radicaliaeth gynnar y Cymry
 - c. Anghydfurfiaeth a Rhyddfrydiaeth
 - d. Cymru Ryddfrydol
 - e. Tranc Rhyddfrydiaeth yng Nghymru
9. Rhyddfrydiaeth a gwleidyddiaeth fyd-eang
 - a. Cyd-destun Rhyddfrydiaeth a Realiaeth
 - b. Y traddodiad o Ryddfrydiaeth Ryngwladol
 - c. Rhyddfrydiaeth ac Ymerodraeth
 - d. Rhyddfrydiaeth Ryngwladol gyfoes

RHYDDFRYDIAETH

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Rhyddfrydiaeth

Ar y 4ydd o Dachwedd, 1789, cyflwynodd y Cymro a'r Rhyddfrydwr enwog, Richard Price, bregeth a achosodd drafodaeth wleidyddol fywiog; soniodd am nifer o syniadau gwleidyddol sy'n parhau i gael llawer o sylw heddiw.

Roedd Price yn siarad mewn cyfarfod yn Llundain i gofio 'Chwyldro Gogoneddus 1688' ac yn trafod ei ymateb ef i'r Chwyldro arall oedd yn digwydd ar yr adeg honno yn Ffrainc. Roedd y Chwyldro Gogoneddus yn ddigwyddiad pwysig yn hanes Prydain, ac roedd nifer o syniadau'r meddyliwr enwog John Locke – er enghraifft y **cytundeb cymdeithasol**, **hawliau naturiol** a **goddefgarwch** – yn adlewyrchu syniadau newydd cyfnod a oedd yn cael ei adnabod fel **man cychwyn y meddwl rhyddfrydol**. Bwriad Richard Price oedd dangos sut roedd y chwyldroadwyr yn Ffrainc yn lledaenu ac yn datblygu'r egwyddorion rhyddfrydol y soniwyd amdanynt gan Locke ganrif cyn hynny.

Dyn yn perthyn i'w oes oedd Richard Price, gan fod ei syniadau'n adlewyrchu'r syniadau rhyddfrydol poblogaidd ar y pryd, gan gynnwys syniadau athronwyr enwog fel Immanuel Kant. Gelwir y cyfnod yma yn *Oes y Goleuo*, ac yn ystod yr adeg yma sefydlwyd nifer o egwyddorion canolog rhyddfrydiaeth, megis **unigoliaeth** a **rhesymoliaeth**. Roedd llawer o bwyslais hefyd ar y posibiladau o newid y drefn ryngwladol a sicrhau cydweithio heddychlun yn lle rhyfeloedd.

Yn ystod y 19eg ganrif roedd anghytuno rhwng y gwahanol ffrydiau rhyddfrydol **clasurol a modern**, wrth i gwestiynau am **gyfiawnder**, **cydraddoldeb** a **democratiaeth** godi yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Roedd sosialwyr megis Robert Owen yn cwestiynu **rhyddfrydiaeth glasurol**. Ar yr un pryd, cafwyd meddylwyr rhyddfrydol newydd a daeth ffigurau fel John Stuart Mill yn amlwg. Roedd y sosialwyr modern hyn yn ceisio uno unigoliaeth ryddfrydol gyda syniadau cymdeithasol mwy blaengar fel **rhyddid** a **chydraddoldeb**. Arweiniodd y syniadau hyn at ryddfrydiaeth gymdeithasol gwaith pobl fel T.H. Green, L.T. Hobhouse a'r Cymro Henry Jones. Roedden nhw'n pwysleisio rôl y **wladwriaeth ryddfrydol**, a gwelwyd yr agenda gwleidyddol yma yn y Deyrnas Unedig yng ngwleidyddiaeth a pholisïau Lloyd George.

Yn ystod yr 20fed ganrif ceisiwyd ymhellach i gysylltu rhyddfrydiaeth gyda chydraddoldeb, ac yn enwedig y syniad bod angen i'r wladwriaeth ymyrryd er mwyn gwneud hyn. Mae gwaith Isaiah Berlin, sydd yn trafod **rhyddid negyddol a rhyddid** cadarnhaol, yn dangos rhai o'r tensiynau y gall hyn achosi. Yn dilyn dirwasgiad y 1930au a'r 1940au daeth syniadau economegwyr rhyddfrydol fel John Maynard Keynes i ddylanwadu'n drwm ar bolisiau cyflogaeth ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt.

Ar ddiwedd yr 20fed ganrif cyhoeddodd yr Americanwr John Rawls ei egwyddorion rhyddfrydiaeth egalitariaidd, a daeth ymateb libertaraidd gan Robert Nozick. Erbyn heddiw, mae nifer o drafodaethau yn parhau ynglŷn â'r themâu a gyflwynwyd gan Rawls a Nozick, gan gynnwys ceisio ail-ddiffinio syniadau fel hawliau, cydraddoldeb a rhyddid yng nghyd-destun y gymdeithas fodern. Er bod y Blaid Ryddfrydol yn wan ar hyn o bryd, yng Nghymru a thu hwnt, mae'n debyg bod hyn i raddau oherwydd bod egwyddorion rhyddfrydiaeth bellach i'w gweld ar draws cymdeithas yn gyffredinol. Gellir dweud eu bod yn gosod fframwaith ar gyfer trafodaethau gwleidyddol ein hoes. Ac wrth i ni ddelio â sialensiau gwleidyddol newydd pynciau fel

RHYDDFRYDIAETH

dinasyddiaeth, cyfranogiad dinesig, amlddiwylliannaeth a globaleiddio, rhaid cofio eu bod yn syniadau a thrafodaethau a ddechreuodd yn y traddodiad rhyddfrydol.

RHYDDFRYDIAETH

2. Gwreiddiau Rhyddfrydiaeth

Mae'r term 'rhyddfrydol' yn estyn yn ôl i'r Oesoedd Canol a chafodd ei ddefnyddio mewn sawl cyd-destun gwahanol dros y canrifoedd. Er enghraifft, roedd y term Lladin, *liber*, yn disgrifio dosbarth o ddynion rhydd – dynion nad oeddent yn gaethweision. Yn fwy diweddar cafodd y term ei ddefnyddio i awgrymu haelioni. Hefyd, gall rhyddfrydol neu ryddfrydig gael eu defnyddio i ddisgrifio ein hagweddau cymdeithasol. Disgrifir person fel rhywun rhyddfrydol os yw'n agored i amrywiaeth eang o safbwyntiau.

Eto, er bod y defnydd o'r term yn mynd yn ôl i'r Oesoedd Canol, ni chafodd rhyddfrydiaeth ei ddefnyddio fel label gwleidyddol hyd ddechrau'r 19eg ganrif. Mae'n bosib mai yn Sbaen yn 1812 y digwyddodd hyn am y tro cyntaf, pan ddefnyddiwyd yr enw *Liberales* gan blaid newydd a gafodd ei sefydlu er mwyn gwrthwynebu grwpiau mwy ceidwadol a oedd yn cefnogi'r brenin. Wedi hynny, datblygodd y term yn gyflym iawn mewn gwleidyddiaeth. Erbyn tua'r 1840au, roedd rhyddfrydiaeth yn derm ar draws Ewrop i ddisgrifio syniadau gwleidyddol radical.

Ond ni chafodd rhyddfrydiaeth ei ddefnyddio fel label gwleidyddol pendant hyd ddechrau'r 19eg ganrif. Roedd y math o syniadau ac egwyddorion y gellid eu disgrifio fel rhyddfrydiaeth wedi datblygu'n raddol am ymron i 300 mlynedd cyn hynny. Er enghraifft, mae John Gray – arbenigwr ar hanes a datblygiad rhyddfrydiaeth – yn dweud mai yn yr 17eg ganrif y dechreuodd rhai o'r syniadau a fyddai'n ffurfio rhyddfrydiaeth, yn y pen draw.

Mae llawer o drafodaeth ynglŷn â sut datblygodd syniadau rhyddfrydol yn ystod y cyfnod hwn – 1600au-1800au. Mae'r rhai sy'n astudio hanes syniadau gwleidyddol wedi dewis dilyn sawl llwybr gwahanol, gan roi sylw i nifer o ddatblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol pwysig. Fodd bynnag, dyma'r rhai mwyaf amlwg:

- Y nifer o **chwyldroadau gwleidyddol** mawr a fu yn Lloegr (1688), America (1776) a Ffrainc (1789); roeddent yn tynnu sylw, mewn gwahanol ffyrdd at themâu rhyddfrydol pwysig. Roedd y themâu yn cynnwys unigolyddiaeth, goddefgarwch, rhyddid a'r angen i gyfyngu grym gwleidyddol.
- **Y Goleuo**, sef y symudiad diwylliannol a welwyd yn ystod y 18fed ganrif. Roedd y mudiad hwn yn cwestiynu traddodiadau crefydd, gwleidyddiaeth a dysg, gan ddangos y gallai pobl ddefnyddio eu gallu i resymu er mwyn deall y byd.
- Datblygiad y **gymdeithas gyfalafol fodern** o'r 17eg ganrif, pan welwyd dosbarth canol yn cael ei greu. Nid oedd aelodau'r dosbarth cymdeithasol newydd hwn yn fodlon i'w rhyddid gwleidyddol ac economaidd gael ei gyfyngu, fel a oedd wedi digwydd o dan system brenhinoedd absoliwt yn ystod y canrifoedd cynt.

Gwelir felly bod nifer o ddatblygiadau mawr wedi cyfrannu at ddatblygiad syniadau rhyddfrydol. Yn gyffredinol, gwelwyd newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd rhwng yr 17eg ganrif a'r 19eg ganrif ac un canlyniad o hyn oedd rhyddfrydiaeth.

RHYDDFRYDIAETH

3. Ffrydiau Rhyddfrydol

Fel ymron pob ideoleg wleidyddol arall, nid un corff taclus o syniadau oedd rhyddfrydiaeth. Felly, tra bod rhai wedi ceisio dadlau mai un athrawiaeth bur ydyw rhyddfrydiaeth, mae'r mwyafrif yn credu mewn nifer o ffrydiau rhyddfrydol. Y mwyaf amlwg yw Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern. Fel y gwelir isod mae'r ddwy ffrwd hyn yn rhannu'r un prif egwyddorion rhyddfrydol, fel unigolyddiaeth a rhyddid. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae'r rhai sy'n perthyn i'r ddwy ffrwd wahanol wedi edrych ar yr egwyddorion hyn mewn ffordd wahanol. Mae hyn wedi arwain at farn wahanol iawn ynglŷn â sut ddylid trefnu cymdeithas.

3.1 Rhyddfrydiaeth Glasurol

Rhyddfrydiaeth Glasurol yw'r hynaf o'r ddwy ffrwd. Erbyn dechrau'r cyfnod diwydiannol yn ystod degawdau cyntaf y 19eg ganrif, roedd gan Ryddfrydiaeth Glasurol gefnogaeth eang iawn, yn enwedig ar draws y byd Eingl-Seisnig. Yn wir, o ganlyniad i'r ffaith bod y 19eg ganrif yn cael ei hystyried fel oes aur i'r ffrwd hon o ryddfrydiaeth cyfeirir ati weithiau fel 'Rhyddfrydiaeth y 19eg ganrif'.

Mae dadleuon rhyddfrydiaeth glasurol wedi eu cyflwyno mewn sawl gwahanol ffordd dros y blynyddoedd. Ond maent yn tueddu i bwysleisio'r canlynol:

- **Unigolyddiaeth haniaethol:** Mae'r pwyslais rhyddfrydol ar yr unigolyn yn amlwg iawn yn syniadau rhyddfrydiaeth glasurol. Unigolyddiaeth eithafol yw hon. Edrychir ar gymdeithas fel dim mwy na chasgliad o unigolion sy'n ceisio gofalu am eu hanghenion a'u dymuniadau gwahanol. Maent yn credu bod pobl yn annibynnol ac yn gallu edrych ar ôl eu hunain. Ac nid oes gan yr unigolyn unrhyw gyfrifoldeb tuag at unigolion eraill neu at y gymdeithas yn gyffredinol.
- **Rhyddid negyddol:** Mae safbwynt Rhyddfrydwyr Clasurol o natur cymdeithas – hynny yw, casgliad o unigolion annibynnol – yn dylanwadu ar sut y maent yn ystyried rhyddid. Mae eu safbwynt wedi cael ei ddisgrifio fel un negyddol. Credant y bydd yr unigolyn yn rhydd os yw'n cael llonydd i fyw ei fywyd heb ymyrraeth, a'i fod yn medru ymddwyn mewn unrhyw ffordd y mae ef neu hi yn credu ei fod yn dderbyniol (gan barchu'r gyfraith, wrth gwrs). Disgrifir hwn fel safbwynt negyddol oherwydd ei fod yn credu y dylid gwneud i ffrwd ag unrhyw beth sy'n rhwystro'r unigolyn rhag gwneud gwahanol dasgau.
- **Gwladwriaeth gyfyngedig:** Mae'r syniad o ryddid negyddol, yn ei dro, yn dylanwadu ar syniadau'r Rhyddfrydwyr Clasurol ynglŷn â rôl y wladwriaeth. Roedd teimladau'r Rhyddfrydwyr Clasurol tuag at y wladwriaeth i'w gweld yng ngeiriau Tom Paine a'i disgrifiodd fel 'a necessary evil' – rhywbeth angenrheidiol, ond eto nid yn rhywbeth i'w ganmol. Ar un llaw, mae'r wladwriaeth yn angenrheidiol gan ei bod yn cadw trefn ac felly yn rhwystro gwrthdaro rhwng unigolion. Byddai cymdeithas drefnus yn amhosib heb reolau – byddai rhyddid negyddol pur yn golygu ansefydlogrwydd parhaol wrth i unigolion wrthdaro â'i gilydd. Ond ar y llaw arall, mae Rhyddfrydwyr Clasurol yn dweud na ddylid dathlu a chanmol y wladwriaeth, gan ei bod yn siŵr o arwain at gyfyngu llawer ar ryddid pob unigolyn. Felly, er mwyn cadw cymaint â phosib at y syniad o ryddid

RHYDDFRYDIAETH

negyddol, mae Rhyddfrydwyr Clasurool yn credu y dylid cyfyngu llawer ar y wladwriaeth. A siarad yn gyffredinol, ni ddylid gadael i'r wladwriaeth wneud dim mwy na'r hyn sy'n rhaid er mwyn cadw cyfraith a threfn a diogelu unigolion a'u heiddo. Dylai pob cyfrifoldeb arall fod yn nwylo'r unigolion annibynnol sy'n byw yn y gymdeithas. Golyga hyn nad yw Rhyddfrydwyr Clasurool yn credu yn y syniad o'r wladwriaeth yn ymyrryd mewn polisïau cymdeithasol neu economaidd pwysig, fel addysg, iechyd neu gyflogaeth.

Fel y nodwyd uchod, hanner cyntaf y 19eg ganrif oedd oes aur y ffrwd hon o ryddfrydiaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth yn syniad gwleidyddol poblogaidd iawn. Roedd datblygiad y gymdeithas gyfalafol fodern yn gwneud i bobl deimlo bod ganddyn nhw gyfle i reoli eu bywydau. Er enghraifft, roedd cymdeithas yn awr yn fwy symudol a'i strwythur yn newid. Felly, gellir deall pam bod syniadau gwleidyddol a oedd yn cyfyngu ar ymyrraeth y wladwriaeth ac yn rhoi pwyslais ar ryddid yr unigolyn, yn boblogaidd iawn mewn rhai cylchoedd.

Fodd bynnag, nid corff o syniadau gwleidyddol sy'n perthyn i'r 19eg ganrif ac sydd bellach o ddiddordeb hanesyddol yn unig yw Rhyddfrydiaeth Glasurool. Tra bod y ffrwd hon o ryddfrydiaeth yn llawer llai poblogaidd erbyn dechrau'r 20fed ganrif, gwelwyd llawer o'r dadleuon a'r egwyddorion yn cael cefnogaeth newydd o tua'r 1970au ymlaen. Roedd gwaith ffigurau fel Friedreich von Hayek, Ayn Rand a Robert Nozick yn cefnogi ffurf fodern ar ryddfrydiaeth glasurol. Unwaith eto, yn y byd Eingl-Seisnig, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig y dechreuodd y syniadau neo-ryddfrydol hyn – yn enwedig yn ystod cyfnod Ronald Reagan yn yr Unol Daleithiau a Margaret Thatcher ym Mhrydain yn ystod yr 1980au. Fodd bynnag, yn dilyn globaleiddio economaidd, fe'u gwelwyd yn lledu dros weddill y byd erbyn cychwyn yr 21ain ganrif. Yn aml iawn, yr enw ar y ffrwd mwy diweddar yma o feddwl yw 'libertariaeth', yn enwedig yn ystod y trafod rhwng pobl megis Nozick a rhyddfrydwr egalitaraidd megis John Rawls. Ond, erbyn heddiw mae'r term 'neo-ryddfrydiaeth' yn un poblogaidd iawn i ddisgrifio ideoleg Reagan a Thatcher. Mae wedi datblygu gan roi pwyslais nid yn unig ar bolisiau economaidd sy'n gwrthwynebu ymyrraeth y wladwriaeth ac sy'n rhoi pwyslais ar y farchnad, ond sydd hefyd yn rhoi llawer o werth ar unigolyddiaeth, cyfoeth a chystadleuaeth o fewn sectorau cyhoeddus megis iechyd. Am y rhesymau hyn, gellir cysylltu neo-ryddfrydiaeth gyda'r traddodiad ceidwadol (trafodwn y cysylltiadau ymhellach yn yr uned ar Geidwadaeth).

3.2 Rhyddfrydiaeth Fodern

Erbyn yr 1880au, roedd rhai rhyddfrydwyr yn dymuno newid cyfeiriad gan edrych eto ar rai o ddadleuon Rhyddfrydiaeth Glasurool. Y cefndir i hyn oedd datblygiad pellach cyfalafiaeth ddiwydiannol yn ystod ail hanner y 19eg ganrif. Roedd rhai mewn cymdeithas wedi llwyddo i ddod yn gyfoethog o ganlyniad i'r Chwyldro Diwydiannol. Ar yr un pryd, roedd problemau cymdeithasol difrifol. Gwelwyd tloedi, afiechydon, diffyg addysg ac amodau gwaith anodd. Oherwydd y problemau hyn, roedd nifer o ryddfrydwyr yn ei chael yn anodd amddiffyn rhai o'r syniadau clasurool. Dechreuont holi a ddylai'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd fel addysg, amodau gwaith a gofal iechyd er mwyn helpu unigolion. Yn ychwanegu at y drafodaeth hon oedd y syniadau sosialaidd a'r cysylltiad rhwng gwleidyddiaeth a'r problemau cymdeithasol ac economaidd.

RHYDDFRYDIAETH

Yn y diwedd, arweiniodd hyn at ffrwd newydd o ryddfrydiaeth – Rhyddfrydiaeth Fodern. Cysylltir y datblygiad hwn yn aml â gwaith pobl fel T.H. Green, L.T. Hobhouse a J.A. Hobson rhwng 1880au a'r 1920au. Yn wir, byddai'r ffrwd hon o ryddfrydiaeth yn datblygu i fod yn un arbennig o bwysig yn ystod yr 20fed ganrif, gan ddylanwadu'n fawr ar bolisiâu cymdeithasol ac economaidd mwyafrif gwledydd y gorllewin. Tra bod ei dylanwad wedi lleihau yn ystod y degawdau diwethaf, oherwydd bod syniadau neo-ryddfrydol wedi dod yn fwy poblogaidd ers yr 1970au, mae Rhyddfrydiaeth Fodern yn parhau yn ffrwd bwysig o feddwl o fewn y traddodiad rhyddfrydol. Yn gyffredinol, mae'r Rhyddfrydwyr Modern yn pwysleisio'r canlynol:

- **Unigolyddiaeth:** Mae Rhyddfrydwyr Modern yn edrych ar unigolyddiaeth mewn ffordd wahanol iawn i Ryddfrydwyr Clasur. Mae unigolyddiaeth gymdeithasol y Rhyddfrydwyr Modern yn parhau i bwysleisio'r unigolyn. Ond, mae'r unigolyddiaeth yma hefyd yn ystyried y cysylltiad rhwng pobl ac unedau ehangach, fel y teulu, y gymdeithas a hyd yn oed y genedl. Er enghraifft, dywedodd T.H. Green bod cymdeithas a'r cyfeillgarwch a'r ddibyniaeth sy'n medru datblygu o ganlyniad, yn bwysig iawn er mwyn i unigolion gael y cyfle i ddarganfod eu gwir gymeriad a chyrraedd eu potensial.
- **Rhyddid cadarnhaol:** Mae Rhyddfrydwyr Modern hefyd wedi rhoi ystyr arall i ryddid. Maen nhw'n credu bod rhyddid yn gofyn am lawer mwy na dim ond gweithredu negyddol sy'n golygu gwneud i ffwrdd â rhwystrau gan adael llonydd i'r unigolyn. Maen nhw'n credu bod gwir ryddid yn galw am roi cyfle teg i'r unigolyn i ddatblygu ei allu a'i ddealltwriaeth o'r byd o'i gwmpas er mwyn cyrraedd ei potensial fel person. Er mwyn creu amodau o'r fath, bydd angen cymryd camau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael cyfleoedd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a fydd yn medru gwneud iddo fod yn berson annibynnol.
- **Gwladwriaeth ymyraethol:** Yn ogystal ag ystyr arall i ryddid, mae Rhyddfrydwyr Modern hefyd yn edrych yn wahanol ar rôl y wladwriaeth. Credant nad yw'n bosib i bob unigolyn gael y rhyddid i ddatblygu a chyrraedd ei potensial os yw'r wladwriaeth yn gyfyngedig iawn ac ond yn canolbwyntio ar gadw'r heddwch. O ganlyniad, mae Rhyddfrydwyr Modern o blaid gwladwriaeth sy'n ymyrryd mewn meysydd cymdeithasol (e.e. maes addysg a iechyd) a hefyd ymyrryd yn yr economi (e.e. trwy gynlluniau creu gwaith) er mwyn gwella sefyllfa unigolion a chydarddoldeb cymdeithasol. Bydd hyn wedyn yn rhoi rhyddid i aelodau cymdeithas i fyw bywydau annibynnol.

Rhyddfrydiaeth Glasur	Rhyddfrydiaeth Fodern
Unigolyddiaeth haniaethol	Unigolyddiaeth gymdeithasol
Rhyddid negyddol	Rhyddid cadarnhaol
Gwladwriaeth gyfyngedig	Gwladwriaeth ymyraethol
Hawliau negyddol	Hawliau cadarnhaol
Economi <i>laissez-faire</i>	Rheolaeth economaidd

RHYDDFRYDIAETH

4. Elfennau allweddol Rhyddfrydiaeth

4.1 Unigolyddiaeth

Mae unigolyddiaeth yn egwyddor ryddfrydol cwbl ganolog. Golyga bod rhyddfrydwyr yn credu y dylid rhoi lles pobl unigol o flaen rhai cymdeithas, neu unrhyw grŵp torfol arall. Credant fod pobl yn unigolion gwahanol yn y lle cyntaf, a bod y ffaith hon yn bwysig. I ddechrau, mae pob person unigol yn unigryw gyda chymeriad, chwaeth a hunaniaeth ei hun. Hefyd, credant fod pob person yn gyfartal o ran statws moesol, gan fod pawb, yn y lle cyntaf, yn unigolyn.

Yn dilyn hyn, mae rhyddfrydwyr am greu cymdeithas a fydd yn caniatáu i bobl lwyddo a datblygu, gan fyw eu bywydau fel y dymunant. Golyga hyn fod rhyddfrydwr yn amheus o unrhyw safbwynt gwleidyddol sy'n ceisio rheoli gormod o fywyd yr unigolyn, a pheidio gadael iddo ddilyn ei gwrs ei hun mewn bywyd.

Fodd bynnag, tra bod unigolyddiaeth wedi bod yn egwyddor bwysig iawn mewn gwaith ryddfrydol o bob math dros y canrifoedd, nid yw rhyddfrydwyr wedi cytuno bob tro sut i'w ddiffinio. Eglurodd y rhyddfrydwr Americanaidd, John Dewey (1931), o fewn rhyddfrydiaeth mae rhai yn credu mewn 'unigolyddiaeth haniaethol' ac eraill yn credu mewn 'unigolyddiaeth gymdeithasol'.

- **Unigolyddiaeth haniaethol:** Dyma'r unigolyddiaeth sydd agosaf i'r ffrwd glasurol o ryddfrydiaeth. Meddylir am yr unigolyn fel creadur cwbl annibynnol sy'n 'berchen' ar ei gorff ac ar ei alluoedd personol. O ganlyniad, yr unigolyn yn unig sy'n cael y clod am unrhyw lwyddiant yn ystod ei fywyd, ac ni fydd arno unrhyw ddyled neu ddiolch i'r gymdeithas ehangach. Disgrifir y safbwynt hwn weithiau fel un atomyddol (*atomist*), gan ei fod yn edrych ar unigolion fel casgliad o atomau ynysig sydd heb unrhyw gysylltiad â'i gilydd.
- **Unigolyddiaeth gymdeithasol:** Yn wahanol i'r uchod, mae Rhyddfrydwyr Modern yn cysylltu unigolyddiaeth gydag unedau ehangach, megis y teulu, y gymdeithas a hyd yn oed y genedl. Er enghraifft, dywedodd T.H. Green bod cymdeithas a'r cyfeillgarwch a'r gyd-ddibyniaeth sy'n rhan ohono, yn bwysig er mwyn i unigolion gael y cyfle i ddarganfod eu gwir gymeriad a chyrraedd eu potensial.

Mae rhyddfrydwyr wedi edrych ar unigolyddiaeth mewn ffyrdd gwahanol iawn dros y blynyddoedd. Eto i gyd, er gwaetha'r gwahaniaethau hyn, mae pob rhyddfrydwr yn cytuno ar y pwynt cyffredinol, sef dylid rhoi blaenoriaeth i les yr unigolyn. Mewn geiriau eraill, yr unigolyn yw'r man cychwyn ar gyfer pob rhyddfrydwr – yr uned bwysicaf.

4.2 Rhyddid

Ochr yn ochr ag unigolyddiaeth, mae Rhyddfrydiaeth (fel yr awgryma'r enw) yn ystyried rhyddid fel egwyddor allweddol. Mae'r pwyslais hwn ar ryddid yn ganlyniad naturiol i'r gred y dylai cymdeithas gael ei threfnu er mwyn caniatáu i'r unigolyn fyw ei fywyd fel y mae ef neu hi'n dymuno. Er mwyn medru gwneud hynny, rhaid i'r unigolyn gael rhyddid.

RHYDDFRYDIAETH

Eto i gyd, mae rhyddfrydwyr yn gweld nad yw'n ymarferol i unigolion gael rhyddid absoliwt. Byddai rhyddid absoliwt yn medru creu sefyllfa lle gallai rhai unigolion ddefnyddio eu rhyddid i niweidio eraill. O ganlyniad, er bod rhyddid yn egwyddor sylfaenol i ryddfrydwyr, maent yn barod i gyfyngu ar y rhyddid hwnnw er mwyn i bawb fedru byw gyda'i gilydd. Credant y dylai pawb gael gymaint o ryddid ag sy'n bosib heb effeithio ar ryddid pobl eraill. Yng ngeiriau John Rawls (1971): *'that everyone is entitled to the widest possible liberty consistent with a like liberty for all'*.

Ond er bod rhyddfrydwyr yn cytuno bod rhyddid yn egwyddor sylfaenol, nid ydynt wastad wedi cytuno ynglŷn â sut, yn ymarferol y gellir sicrhau'r rhyddid hwnnw. Yn ei ysgrif enwog, *Two Concepts of Liberty* (1958), soniodd Isaiah Berlin am ddau fath o ryddid a welir yng ngwaith rhyddfrydwyr, sef 'rhyddid negyddol' a 'rhyddid cadarnhaol'.

- **Rhyddid negyddol:** Dyma'r math o ryddid y mae'r Rhyddfrydwyr Clasurool yn credu ynddo. Y syniad tu ôl i ryddid negyddol yw bod unigolyn yn rhydd os yw'n cael llonydd i fyw ei fywyd heb unrhyw ymyrraeth, a'i fod yn medru ymddwyn fel y mae'n dymuno. Disgrifir y rhyddid hwn fel un *negyddol* gan ei fod yn credu y dylid gwneud i ffwrdd gydag unrhyw rwystrau a allai atal yr unigolyn rhag gwneud pethau.
- **Rhyddid cadarnhaol:** Yn wahanol i'r uchod, mae Rhyddfrydwyr Modern yn credu bod rhyddid yn galw am lawer mwy na dim ond gwneud i ffwrdd â rhwystrau a gadael llonydd i'r unigolyn. Yn hytrach, credant fod gwir ryddid yn galw am greu amodau a fydd yn rhoi cyfle teg i'r unigolyn i ddatblygu ei alluoedd a'i ddealltwriaeth o'r byd, a drwy hynny, bydd yn medru cyrraedd ei botensial fel person. Er mwyn gwneud hynny, credant fod angen cymryd camau *cadarnhaol* er mwyn gwneud yn siŵr bod yr unigolyn cael cyfle yn gymdeithasol, economaidd ac yn wleidyddol er mwyn iddo fod yn berson annibynnol.

Nid sut y maent yn edrych ar ryddid yn unig sydd wedi arwain at drafodaeth ymhlith rhyddfrydwyr. Mae ganddynt hefyd syniadau gwahanol iawn ynglŷn â sut i drefnu cymdeithas wleidyddol, a beth yw rôl y wladwriaeth.

4.3 Hawliau

Mae'r syniad o hawl yn bwysig iawn mewn trafodaethau gwleidyddol ar hyn o bryd. Mae hefyd yn syniad sy'n ganolog i olwg rhyddfrydwyr o'r byd. Yn wir, mae pwysigrwydd hawliau erbyn hyn yn adlewyrchu sut mae syniadau rhyddfrydol allweddol wedi mynd yn rhan bwysig o'n cymdeithas.

Yn syml, hawl yw darpariaeth sy'n caniatáu i unigolyn neu grŵp o bobl ymddwyn neu gael eu trin mewn modd arbennig ac sydd, ar yr un pryd, yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar eraill i gadw at y trefniant hwn. Dadleuodd rhyddfrydwyr cynnar o'r 17eg ganrif a'r 18fed ganrif, megis John Locke a Thomas Jefferson, bod gan bob unigolyn hawliau naturiol – sef hawliau a roddwyd gan Dduw ac sy'n gyffredin i bawb, pw y binnag ydynt a beth bynnag fo'u cefndir. Yn wir, dywedodd Jefferson (oedd yn digwydd bod yn ffrind i'r Cymro Richard Price ac wedi'i ddylanwadu gan rai o'i syniadau) bod y rhain yn hawliau 'diymwad' (*inalienable*), gan fod pobl yn eu cael yn unig am

RHYDDFRYDIAETH

eu bod yn bobl; felly rhaid eu derbyn a chadw atynt. Dywedwyd bod yr hawliau naturiol yma yn gwbl angenrheidiol er mwyn byw bywyd ystyrllon. Credai Locke fod yr unigolyn â thri hawl naturiol, yr hawl i 'fywyd, rhyddid ac eiddo'. Roedd barn Jefferson ychydig yn wahanol, sef ynglŷn ag os gellid trin eiddo fel hawl naturiol a roddwyd gan Dduw. O ganlyniad, disgrifiodd ef ein hawliau naturiol fel yr hawl i 'fywyd, rhyddid a dedwyddwch' (*life, liberty and the pursuit of happiness*). Erbyn heddiw, nid yw rhyddfrydwyr yn cyfeirio'n aml iawn at hawliau naturiol. Mae'r syniad o hawliau dynol yn fwy cyffredin bellach. Er hyn, mae'r egwyddor y tu ôl i'r ddau syniad – bod pob unigolyn, pwy bynnag ydyw, yn berchen ar hawliau sylfaenol – yn debyg iawn. Y prif wahaniaeth yw bod rhyddfrydwyr heddiw, wrth drafod hawliau dynol yn eu hystyried fel hawliau yr ydym wedi cytuno arnynt trwy ddefnyddio'n gallu i resymu, ac nid yn hawliau sydd wedi eu rhoi gan Dduw.

Oherwydd y pwyslais y mae rhyddfrydwyr yn ei roi ar yr unigolyn, a'u bod hefyd am i bob unigolyn gael rhyddid i fyw ei fywyd fel y mae'n dymuno, gellir deall pam fod rhyddfrydwyr yn hoffi'r syniad bod pob unigolyn â hawliau sylfaenol. Mae'r hawliau hyn wedi cael eu defnyddio ar adegau i rwystro grym y wladwriaeth. Er enghraifft, pwysleisiodd Locke mai prif rôl y wladwriaeth yw gwneud yn siŵr bod aelodau cymdeithas yn cael eu hawliau naturiol. Os yw hyn yn digwydd, dywedodd y dylai pobl gadw at y gyfraith. Ond dywedodd Locke (a rhaid cofio bod hyn yn cael ei ddweud gan berson a oedd yn byw yn ystod yr 17eg ganrif) y byddai'n iawn i bobl wrthryfela yn erbyn y llywodraeth os nad oedd yn diogelu eu hawliau naturiol.

Mae cymdeithas a gwleidyddiaeth wedi newid llawer ers cyfnod Locke a Jefferson. Eto i gyd, mae eu dadleuon yn parhau'n berthnasol iawn i ryddfrydwyr. Dyma pam y mae rhyddfrydwyr yn aml yn feirniadol iawn pan fydd gwladwriaethau'n gweithredu mewn ffordd sy'n peryglu hawliau dynol unigolion, er enghraifft trwy gyfyngu ar hawliau pobl i ryddid mynegiant, rhyddid cydwybod neu'r rhyddid i gasglu mewn torf. I ryddfrydwyr mae hyn yn arwydd o wladwriaeth sy'n camu'n rhy bell ac sy'n rhwystro unigolion i fyw bywydau rhydd fel y maent yn dymuno.

4.4 Rhesymoliaeth

Datblygodd rhyddfrydiaeth yn dilyn y Goleuo – mudiad yn ystod y 18fed ganrif a oedd yn cwestiynu syniadau traddodiadol am grefydd, gwleidyddiaeth a dysg drwy gredu bod pobl yn medru defnyddio eu gallu i resymu er mwyn deall y byd. Canlyniad hyn yw bod dylanwad y Goleuo a'r pwyslais ar resymoliaeth wedi dylanwadu ar ryddfrydiaeth mewn sawl ffordd.

I ddechrau, mae rhyddfrydwyr am roi rhyddid i bob unigolyn yn rhannol oherwydd eu bod yn credu bod pobl yn rhesymol ac ystyriol, a'u bod yn gallu meddwl dros eu hunain, a phenderfynu pa lwybr i'w ddilyn yn ystod eu bywydau. Nid yw hyn yn golygu bod rhyddfrydwyr yn meddwl nad yw pobl yn medru gwneud camgymeriadau. Fodd bynnag, mae'n golygu nad yw rhyddfrydwyr yn credu mewn syniadau tadol (*paternal*), sydd yn dweud wrth bobl sut y dylent fyw eu bywydau.

Yn ail, mae'r pwyslais ar resymoliaeth yn golygu bod rhyddfrydwyr yn credu mewn cynnydd. Maent yn creu bod y cynnydd gwybodaeth dros y canrifoedd diwethaf, yn enwedig y chwyldro gwyddonol, yn golygu fod pobl yn deall natur eu byd yn well. Hefyd, oherwydd ein bod yn gallu

RHYDDFRYDIAETH

rhesymu, gall pobl geisio trefnu'r byd er gwell. Disgwylir hefyd y bydd pob cenhedlaeth, yn ei dro, yn ychwanegu at y stôr o wybodaeth, er mwyn cael cynnydd pellach yn y dyfodol.

Yn drydydd, mae'r pwyslais ar reswm yn golygu bod rhyddfrydwyr yn credu mewn trafodaeth. Maent yn derbyn bod gwrthdaro – er enghraifft ynglŷn â sut i rannu neu sut i ddefnyddio adnoddau prin – yn mynd i ddigwydd mewn unrhyw gymdeithas. Eto, pan fo hyn yn digwydd, creda'r rhyddfrydwyr mai'r unig ffordd o ddod dros hyn yw drwy gael trafodaeth agored. Credant y bydd hyn yn llwyddo, gan fod pobl yn rhesymol. Ac wrth drafod byddant yn gweld nad oes pwynt i wrthdaro ac y gallai arwain at drais neu ryfel, yn anffodus.

4.5 Cyfiawnder a chydraddoldeb

Yn gyffredinol, gellir diffinio cyfiawnder fel mater o wneud penderfyniad moesol ar sut i rannu cyfleoedd neu adnoddau ymhlith aelodau cymdeithas, yn y modd mwyaf teg. Mae gan y rhyddfrydwyr dri diffiniad gwahanol o gydraddoldeb.

Mae'r diffiniad cyntaf, **cydraddoldeb sylfaenol**, yn credu mewn cydraddoldeb sylfaenol pob person. Golyga hyn bod rhyddfrydwyr yn credu bod yr un gwerth i fywyd pob unigolyn. Mae cydraddoldeb sylfaenol, yn ei dro, yn arwain rhyddfrydwyr i gredu mewn **cydraddoldeb ffurfiol**. Golyga y dylai pob unigolyn gael yr un statws ffurfiol mewn cymdeithas, ac y dylai pob person, beth bynnag fo'u cefndir, gael yr un hawliau. Mae rhyddfrydwyr yn gwrthwynebu unrhyw drefn sy'n rhoi cyfle i rai pobl ond ddim i eraill oherwydd rhyw, lliw croen, crefydd neu ddsbarth cymdeithasol. Yr enghreifftiau mwyaf cyfarwydd o gydraddoldeb ffurfiol yw 'cydraddoldeb cyfreithiol' a 'chydraddoldeb gwleidyddol'. Mae'r cyntaf yn mynnu y dylai'r gyfundrefn gyfreithiol drin pob aelod o gymdeithas yr un fath, heb ystyried unrhyw ffactorau cymdeithasol eraill (hil, rhyw, dosbarth). Mae'r ail yn mynnu y dylai'r gyfundrefn wleidyddol drin pawb yn gyfartal, er enghraifft trwy roi'r un hawliau pleidleisio i bawb a sicrhau y bydd yr un gwerth i bleidlais pawb.

Yn drydydd, mae rhyddfrydwyr yn rhoi pwyslais ar **gyfle cyfartal**, sef y dylai pob unigolyn gael yr un cyfle i lwyddo o fewn cymdeithas. Nid yw hyn yn golygu bod rhyddfrydwyr yn credu mewn cydraddoldeb absoliwt – hynny yw, nid ydynt yn credu y dylai canlyniadau bywyd fod yr un fath i bawb ac na ddylai fod unrhyw wahaniaeth mewn safon byw neu gyfoeth. Ond dylai'r man cychwyn fod yr un peth i bawb, gan dderbyn wedyn y bydd unigolion yn mynd i gyfeiriadau gwahanol yn ystod eu bywydau. Mae rhyddfrydwyr yn amheus o'r syniad o gydraddoldeb absoliwt, gan ein bod ni i gyd yn unigolion gyda thalentau gwahanol a phersonoliaeth wahanol ac nid pawb sydd am ddringo i fyny mewn cymdeithas.

Mae'r tri math uchod o gydraddoldeb wedi bod yn ganolog i ryddfrydwyr wrth benderfynu sut i gael cyfiawnder i bawb o fewn cymdeithas. Fodd bynnag, mae Rhyddfrydwyr Clasurrol a Rhyddfrydwyr Modern yn diffinio cydraddoldeb yn wahanol. Mae'r ddau fath o ryddfrydwyr yn cytuno mwy neu lai gyda'r diffiniad o gydraddoldeb sylfaenol a chydraddoldeb ffurfiol. Ond, mae pethau'n bur wahanol wrth droi i drafod cyfle cyfartal.

Mae Rhyddfrydwyr Clasurrol yn credu mai dim ond camau bach iawn sydd angen eu cymryd er mwyn rhoi cyfle cyfartal i aelodau cymdeithas. Credant os oes trefniadau ar gael ar gyfer

RHYDDFRYDIAETH

sicrhau cydraddoldeb ffurfiol, a bod y trefniadau cyfreithiol a gwleidyddol ddim yn rhoi mantais annheg i unrhyw grŵp (e.e. bod rhai swyddi yn cael eu rhoi i ddynion yn unig neu bod addysg ond ar gael i bobl wyn yn unig), yna gellir dweud bod yna gyfle cyfartal i bawb. Mewn geiriau eraill, i Ryddfrydwyr Clasurol mae cyfle cyfartal yn golygu bod pob rhwystr ffurfiol i godi mewn cymdeithas wedi'i symud. O'i gymharu, mae Rhyddfrydwyr Modern yn credu bob angen gwneud llawer mwy. I'r rhyddfrydwyr hyn, nid yn unig mae angen sicrhau na fydd unrhyw rwystrau cyfreithiol neu wleidyddol ffurfiol, ond mae hefyd angen sicrhau na fydd ffactorau cymdeithasol eraill yn eu rhwystro. Felly mae Rhyddfrydwyr Modern yn credu bod sicrhau cyfle cyfartal go iawn yn galw ar y wladwriaeth i ddarparu addysg a gofal iechyd i bawb. Credant mai dim ond drwy roi cefnogaeth gymdeithasol y gellir cael maes chwarae teg, gyda chyfle cyfartal i unigolion i godi mewn cymdeithas.

4.6 Goddefgarwch a plwraliaeth

Gan fod llawer o unigolion gwahanol mewn cymdeithas, mae'n golygu amrywiaeth eang o arferion a syniadau moesol, diwylliannol a gwleidyddol. Mae rhyddfrydwyr yn credu'n gryf mewn goddefgarwch o amrywiaeth. Credant y gall unigolion gwahanol ond byw bywydau rhydd os bydd pobl yn barod i dderbyn y bydd eraill, o bosib, yn dewis meddwl neu ymddwyn mewn ffordd nad ydyn mhw'n cytuno ef. Mae'r pwyslais ar oddefgarwch a'r cysylltiad rhyngddo a rhyddid unigol yn mynd yn ôl yn bell yn hanes rhyddfrydiaeth. Roedd yn cael llawer o sylw yng ngwaith rhyddfrydwyr cynnar megis John Locke (1689) ac yn enwedig wrth iddo amddiffyn y syniad o ryddid crefyddol. Yn ei ysgrif enwog, *A Letter Concerning Toleration* (1689), dywedodd Locke nad oedd yn iawn bod y wladwriaeth yn ymyrryd yn y dasg o 'ofalu am eneidiau dynion'.

Ond creda rhai rhyddfrydwyr, nid dim ond rhywbeth i'w oddef yw cymdeithas sy'n cynnwys amrywiaeth moesol, diwylliannol a gwleidyddol. Credant y dylai plwraliaeth gymdeithasol gael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol ac y dylid ei ddathlu a'i hybu. Er enghraifft, yn ei gyfrol enwog, *On Liberty* (1859), dadleuodd J.S. Mill o blaid cymdeithas sy'n caniatáu llawer o syniadau gwahanol ac sydd yn eu trafod yn agored. Credai y byddai hyn yn hybu trafod, dysg a chynnydd cymdeithasol.

5. Seiliau gwladwriaeth ryddfrydol

Er bod rhyddfrydwyr yn rhoi pwyslais ar ryddid pob unigolyn, maent yn derbyn na fyddai cymdeithas heddychlon, oddefgar gyda phawb yn gyfartal yn bosib pe byddai rhyddid absoliwt. Pe na byddai unrhyw drefniadau gwleidyddol a chyfreithiol er mwyn cadw trefn, byddai'n bosib i unigolion ddefnyddio eu rhyddid er mwyn cam-drin neu ennill mantais dros bobl eraill. Byddai hyn yn golygu sefyllfa lle byddai pob aelod o gymdeithas yn medru bygwth eraill neu gael eu bygwth gan eraill. Felly gwelir bod ein rhyddid ni i gyd yn dibynnu ar wneud yn siŵr na fydd unigolion yn bygwth ei gilydd. Am y rheswm yma, mae rhyddfrydwyr yn derbyn bod angen creu gwladwriaeth er mwyn i bawb gael chwarae teg.

5.1 Cyfamod cymdeithasol

Mae'r rhyddfrydwyr yn amddiffyn yr angen am wladwriaeth gan ddweud bod angen cyfamod (cytundeb) cymdeithasol. Soniodd dau o'r meddylwyr rhyddfrydol cynharaf am hyn yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, sef Thomas Hobbes a John Locke. Er bod gwahaniaeth pwysig rhwng dadleuon gwleidyddol Hobbes a Locke, roedd gwaith y ddau ohonynt yn dychmygu bywyd yn y cyfnod cynnar lle nad oedd unrhyw lywodraeth yn bodoli – disgrifiwyd hyn ganddynt fel y 'cyflwr naturiol'. Cafwyd disgrifiad trawiadol o natur y bywyd hwn gan Hobbes. Er na fyddai unrhyw rwystrau ffurfiol i ryddid unigolion yn y cyflwr naturiol, byddai bywyd o ddydd i ddydd yn ansicr iawn heb unrhyw gorff i gadw trefn, a byddai gwrthdaro o hyd. Yng ngeiriau Hobbes, byddai bywyd o'r fath yn 'solitary, poor, nasty, brutish and short.' Roedd y darlun a roddodd Locke o fywyd yn y cyflwr naturiol yn llawer llai tywyll. Eto i gyd, dywedodd y byddai ansicrwydd parhaol a heb unrhyw awdurdod uwch, byddai'n amhosib datrys unrhyw anghytuno rhwng unigolion. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, cytunodd Hobbes a Locke y byddai unigolion rhesymol am gael cyfamod cymdeithasol a fyddai'n arwain at sefydlu gwladwriaeth er mwyn cadw trefn. Byddai pob unigolyn yn derbyn bod yn rhaid iddo roi'r gorau i ychydig o ryddid er mwyn creu cyfundrefn wleidyddol a chyfreithiol, a fyddai'n medru diogelu eu hawliau a'u heiddo.

Nid Hobbes a Locke yw'r unig ryddfrydwyr a soniodd am y cyfamod cymdeithasol. Mae thema debyg yng ngwaith Immanuel Kant yn ystod y 18fed ganrif ac yn fwy diweddar yng ngwaith John Rawls yn ystod degawdau olaf yr 20fed ganrif. Mae'r cyfamod cymdeithasol yn cynnwys dau bwynt sy'n ganolog i sut mae rhyddfrydwyr o bob math wedi dehongli natur y wladwriaeth.

I ddechrau, mae'r syniad hwn yn awgrymu bod unigolion wedi creu'r wladwriaeth ar eu cyfer nhw eu hunain ac mai ei phwrpas yw diogelu eu lles a'u hanghenion. Mae'r wladwriaeth felly yn gytundeb rhwng aelodau cymdeithas. Oherwydd hynny, mae rhyddfrydwyr yn credu bod awdurdod y wladwriaeth yn codi o'r bobl – o'r gwaelod i fyny. Felly, golyga hyn bod rhyddfrydwyr yn credu nad oes rhaid i unigolion i ufuddhau yn absoliwt i gyfreithiau'r wladwriaeth bob tro. Fel y dywedodd Locke, gan fod y wladwriaeth wedi ei sefydlu drwy gytundeb y bobl, yna gall y bobl hynny brotestio a gwrthod cydymffurfio. Gallant wneud hyn os ydynt yn teimlo bod y wladwriaeth yn mynd yn rhy bell ac yn mynd â gormod o'u rhyddid a'u hawliau sylfaenol.

Yn ail, wrth bwysleisio mai cytundeb cyffredinol ymhlith y bobl yw'r wladwriaeth, ystyrir cyfamod cymdeithasol fel endid sydd yn deg i bawb. Oherwydd hyn, mae rhyddfrydwyr wedi gwrthod

RHYDDFRYDIAETH

dadl Marcswyr, sef bod y wladwriaeth yn gweithredu er lles rhai dosbarthiadau breintiedig o fewn cymdeithas. Yn hytrach mae rhyddfrydwyr yn edrych ar y wladwriaeth fel endid sydd yn cynnal trefn a sicrhau bod pawb o fewn cymdeithas yn ymddwyn o fewn y gyfraith ac yn trin ei gilydd yn deg. Yn syml, mae'r wladwriaeth fel dyfarnwr mewn gêm bêl-droed.

5.2 Cyfansoddiadaeth

Tra bo rhyddfrydwyr yn derbyn bod yn rhaid cael gwladwriaeth, maen nhw hefyd yn gwybod bod gwladwriaethau modern yn rymus iawn. Oherwydd hynny, mae rhyddfrydwyr am sicrhau nad yw grym y wladwriaeth yn cael ei gamddefnyddio er mwyn ymyrryd gormod â rhyddid unigolion. Felly mae rhyddfrydwyr yn dadlau dros gael trefniadau gwleidyddol a chyfreithiol a fydd yn lleihau grym y wladwriaeth – dyma yw'r syniad o gyfansoddiadaeth.

Casgliad o reolau yw cyfansoddiad sy'n nodi dyletswyddau a grym y sefydliadau gwahanol sy'n rhan o'r wladwriaeth. Un ffactor pwysig mewn cyfansoddiadaeth ryddfrydol yw bod cyfansoddiad gwlad yn nodi'n glir sut mae cyfreithiau'n lleihau grym y wladwriaeth. Mae hyn yn golygu cael cyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi'n glir beth yw rôl y wladwriaeth, ond hefyd sy'n nodi lle na ddylai'r wladwriaeth gael grym. Yr enghraifft gyntaf o gyfansoddiad oedd Cyfansoddiad Unol Daleithiau America (UDA) a ysgrifennwyd yn 1787. Yn dilyn hynny, cafwyd llawer o gyfansoddiadau ysgrifenedig mewn gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd.

Erbyn heddiw dim ond Israel, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig sydd heb gyfansoddiad ysgrifenedig. Mae cyfansoddiadau ysgrifenedig fel arfer yn nodi lle na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd, drwy nifer o hawliau sylfaenol. Er enghraifft, y Mesur Hawliau yn America, sef deg cymal cyntaf cyfansoddiad y wladwriaeth honno.

Nid yn unig mae cyfansoddiad rhyddfrydol yn cyfyngu ar y wladwriaeth, ond mae hefyd am sicrhau bod gwahanol gyrff yn rhannu grym gwleidyddol. Roedd y Ffrancwr o'r 18fed ganrif, Montesquieu, yn dadlau dros 'rannu grym'. Credai y dylai fod rhaniadau clir rhwng y swyddogaethau gweithredol, deddfwriaethol a barnwrol o fewn unrhyw gyfundrefn. Byddai hyn yn gwneud yn siŵr nad yw grym gwleidyddol yn nwylo un person neu grŵp bach o bobl. Unwaith eto, mae Unol Daleithiau America yn enghraifft dda o ddatl Montesquieu, gyda rhaniad pendant rhwng yr Arlywydd, y Gyngres a'r Uchel Lys. Ffordd arall o rannu grym gwleidyddol mewn gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd yw drwy drefniadau ffederal neu ddatganoli. Caiff grym ei rannu rhwng haenau gwahanol o lywodraeth sy'n cynrychioli ardaloedd o fewn y wladwriaeth, gyda phob haen o lywodraeth yn gyfrifol am feysydd arbennig.

5.3 Rhyddfrydiaeth a democratiaeth

Yn syml, mae democratiaeth yn golygu 'rheolaeth gan y bobl'. Erbyn heddiw mae'r egwyddor y dylai pobl gyffredin allu siapio'r gyfundrefn wleidyddol sy'n effeithio ar eu bywyd o ddydd-i-ddydd yn cael ei derbyn gan bob plaid wleidyddol, gan gynnwys rhyddfrydwyr.

Ond yn ystod hanner cyntaf y 18fed ganrif, roedd llawer o ryddfrydwyr yn cwestiynu'r syniadau democrataidd newydd a oedd yn dod yn boblogaidd. Yr oedd rhai meddylwyr rhyddfrydol y cyfnod, fel y Ffrancwr, Alexis de Toqueville, yn poeni y gallai'r syniadau hyn effeithio ar ryddid yr

RHYDDFRYDIAETH

unigolyn. Gan fod democrataiaeth yn dilyn barn y mwyafrif, yna pan fyddai gwrthdaro, y ffordd ddemocrataidd o ddelio â'r broblem yw gofyn beth yw barn y mwyafrif ac yna dilyn y llwybr hwnnw. Ond efallai na fyddai'r mwyafrif yn dewis dilyn y llwybr rhyddfrydol bob tro. O ganlyniad, roedd de Toqueville yn poeni bod peryg y gallai'r mwyafrif fynd yn erbyn rhyddid yr unigolyn a hawliau grwpiau lleiafrifol.

Erbyn diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, roedd barn rhyddfrydwyr yn llawer mwy cadarnhaol ynglŷn â democrataiaeth. I ddechrau, roedd nifer o ryddfrydwyr wedi dechrau cysylltu democrataiaeth â'r syniad o gyfamod cymdeithasol a oedd gan y rhyddfrydwyr cynnar fel John Locke. Hefyd, roedd rhyddfrydwyr modern yn cysylltu democrataiaeth â dadleuon J.S. Mill, hynny yw ei bod yn beth da i bobl gael cyfle i drafod cyfeiriad gwleidyddol y gymdeithas, yn gyhoeddus.

Fodd bynnag, wrth i ryddfrydwyr fod yn llawer mwy cadarnhaol tuag at ddemocrataiaeth, mae'n bwysig deall mai democrataiaeth *ryddfrydol* yr oeddent yn ei gefnogi. Mae systemau democrataidd-rhyddfrydol yn rhai sy'n uno 'rheolaeth gan y bobl' gyda'r syniad rhyddfrydol o gyfyngu ar y llywodraeth. Byddai system o'r fath yn:

- cynnal etholiadau yn rheolaidd a rhoi hawl i bob unigolyn bleidleisio.
- gosod cyfyngiadau ffurfiol ar y llywodraeth, fel arfer drwy gyfansoddiad ysgrifenedig, a bod rhyddid sylfaenol unigolion yn cael ei ddiogelu gan hawliau cyfreithiol.

Yn gyffredinol, gellir disgrifio systemau democrataidd-rhyddfrydol fel rhai lle gellir trafod y rhan fwyaf o faterion o ddydd-i-ddydd yn agored a lle gellir gwneud penderfyniad ar sail mwyafrif syml. Ond mae hefyd rai pethau sydd mor bwysig i les rhai unigolion fel na ddylid ymyrryd ynddynt, hyd yn oed os yw'r mwyafrif am wneud hynny. Er enghraifft, mewn system ddemocrataidd-rhyddfrydol, hyd yn oed pe bai mwyafrif y bobl am gael un grefydd swyddogol ar draws y wladwriaeth, byddai cyfraith yn gwarantu rhyddid i bob unigolyn i addoli fel y dymunai, felly ni allai 'r wladwriaeth ganiatáu dymuniad y mwyafrif.

6. Rhyddfrydiaeth, y wladwriaeth a chydraddoldeb

6.1 Rhyddfrydiaeth a chydraddoldeb

Mae'r rhyddfrydwyr yn credu bod tair elfen o gydraddoldeb i gyfiawnder cymdeithasol, sef:

- **Cydraddoldeb sylfaenol:** Mae rhyddfrydwyr yn credu y dylai pob person gael hawl i gydraddoldeb sylfaenol a bod bywyd pob unigolyn â'r un gwerth moesol.
- **Cydraddoldeb ffurfiol:** Mae rhyddfrydwyr yn credu y dylai pob person gael yr un statws ffurfiol o fewn cymdeithas, ac y dylai pob unigolyn, beth bynnag fo'u cefndir, gael yr un hawliau a breintiau. Credant na ddylai cymdeithas ystyried unrhyw wahaniaethau rhwng pobl a sicrhau bod cyfle i bawb beth bynnag yw eu rhyw, lliw croen, crefydd neu ddsbarth cymdeithasol. Gwelir hyn gyda 'chydraddoldeb cyfreithiol' (trin pawb yr un fath o dan y system gyfreithiol) a 'chydraddoldeb gwleidyddol' (triniaeth pawb yr un fath o dan y system wleidyddol).
- **Cyfle cyfartal:** Mae rhyddfrydwyr yn credu y dylid pob person gael yr un cyfle i ddatblygu a llwyddo o fewn cymdeithas. Nid yw hyn yn golygu bod rhyddfrydwyr yn credu mewn cydraddoldeb absoliwt – hynny yw, nid ydynt yn credu y dylai canlyniadau bywyd fod yr un fath i bawb ac na ddylai fod unrhyw wahaniaeth mewn safon byw neu gyfoeth. Ond dylai'r man cychwyn fod yr un peth i bawb, gan dderbyn wedyn y bydd unigolion yn mynd i gyfeiriadau gwahanol yn ystod eu bywydau. Mae rhyddfrydwyr yn amheus o'r syniad o gydraddoldeb absoliwt, gan ein bod ni i gyd yn unigolion gyda thalentau gwahanol a phersonoliaeth gwahanol ac nid pawb sydd am ddringo i fyny mewn cymdeithas.

Y tri math uchod o gydraddoldeb yn ôl rhyddfrydwyr fydd yn sicrhau cyfiawnder i bawb o fewn cymdeithas. Ond fel gyda nifer o safbwyntiau eraill, nid yw'r Rhyddfrydwyr Clasurool a'r Rhyddfrydwyr Modern yn cytuno ynglŷn â sut yn union y gellir creu cyfle cyfartal i bawb. Nid ydynt yn cytuno ynglŷn â rôl y wladwriaeth wrth sicrhau cydraddoldeb.

6.2 Rôl y wladwriaeth wrth sicrhau cydraddoldeb

Yn yr adran hon edrychir ar rôl y wladwriaeth mewn sicrhau cydraddoldeb gan roi sylw i'r gwahaniaeth barn rhwng Rhyddfrydwyr Clasurool a Rhyddfrydwyr Modern ynglŷn â hyn.

Ni roddir sylw i gydraddoldeb sylfaenol yma, gan mai egwyddor foesol ydyw ac mae'n cael ei gynnwys gyda'r egwyddor o gydraddoldeb ffurfiol, wrth ystyried rôl y wladwriaeth.

Wrth edrych ar gydraddoldeb ffurfiol, gwelir bod Rhyddfrydwyr Clasurool a Rhyddfrydwyr Modern yn cytuno ynglŷn â'i ystyr ac y dylai'r wladwriaeth gymryd camau i sicrhau hyn. Ar y cyfan, mae'r ddau fath o ryddfrydwyr yn cytuno y dylai'r wladwriaeth fod yn barod i gymryd camau i sicrhau nad oes rhwystrau ffurfiol yn atal rhai grwpiau arbennig rhag medru manteisio ar gyfleoedd pwysig; er enghraifft, nad oes rhai cyfleoedd ar gael i bobl oherwydd lliw croen, crefydd neu ddsbarth cymdeithasol. Mae'r ddau fath o ryddfrydwyr yn cytuno y dylai'r wladwriaeth gael

RHYDDFRYDIAETH

cyfreithiau er mwyn sicrhau hyn (e.e. trwy gyflwyno deddfau yn y cyfansoddiad) sy'n atal rhagfarn agored. Dyma enghreifftiau o gyfreithiau sy'n ceisio gwneud hyn:

- Deddfau sy'n sicrhau nad yw rhai grwpiau cymdeithasol (e.e. merched) yn cael eu hatal rhag pleidleisio mewn etholiadau.
- Deddfau sy'n sicrhau nad yw rhai grwpiau cymdeithasol (e.e. pobl sydd ddim yn berchen tir) yn cael eu hatal rhag bod yn ymgeiswyr mewn etholiadau.
- Deddfau sy'n sicrhau nad yw cyflogwyr yn medru dweud bod rhai swyddi ond yn agored i grŵp arbennig o bobl (e.e. dim ond pobl wyn).
- Deddfau sy'n sicrhau nad yw unigolion sy'n rhentu tai/fflatiau yn medru dweud nad ydynt yn fodlon derbyn rhai pobl fel tenantiaid posib (e.e. lleiafrifoedd ethnig)
- Deddfau sy'n dweud nad yw ysgolion neu brifysgolion yn medru gwrthod derbyn myfyrwyr o rai cefndiroedd arbennig (e.e. myfyrwyr du).

Mae'r rhain yn enghreifftiau o gyfreithiau sydd wedi eu creu gan wladwriaethau rhyddfrydol ar draws y byd er mwyn sicrhau cydraddoldeb ffurfiol.

Tra bod Rhyddfrydwyr Clasurool a Rhyddfrydwyr Modern yn cytuno ynglŷn â'r syniad o gydraddoldeb ffurfiol a sut y dylai'r wladwriaeth sicrhau hyn, nid yw hynny'n wir o gwbl wrth sôn am gyfle cyfartal. Barn y Rhyddfrydwyr Clasurool mai dim ond camau bach iawn sydd angen i'r wladwriaeth eu cymryd er mwyn rhoi cyfle cyfartal i bob aelod o gymdeithas. Credant, os yw'r wladwriaeth wedi cymryd camau i sicrhau cydraddoldeb ffurfiol, er enghraifft trwy greu cyfreithiau fel yr uchod, yna mae cyfle cyfartal i bawb.

Yn wahanol i hyn, mae Rhyddfrydwyr Modern yn credu bod yn rhaid cymryd camau llawer mwy er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. I'r rhyddfrydwyr hyn, nid yn unig mae angen sicrhau na fydd rhwystrau neu ragfarnau ffurfiol, ond maent hefyd am sicrhau na fydd ffactorau eraill yn eu rhwystro. Credant y dylid gwneud cymaint â phosib i sicrhau nad yw ffactorau sydd y tu hwnt i'r rheolaeth yn rhwystro'r unigolyn rhag datblygu a llwyddo yn ystod ei fywyd. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys rhywun sydd yn digwydd dod o deulu tlawd sy'n golygu ei bod yn anodd mynd i'r brifysgol; neu rywun sydd wedi'i eni gyda salwch sy'n galw am ofal cyson; neu rywun sydd wedi digwydd colli ei swydd ac yn brin o arian. O ganlyniad, mae Rhyddfrydwyr Modern yn dadlau bod sicrhau cyfle cyfartal yn golygu bod yn rhaid i'r wladwriaeth fod yn rhagweithiol (*proactive*), gan ymyrryd er mwyn lleihau effaith anfantais gymdeithasol. Golyga hyn bod yn rhaid i wladwriaethau rhyddfrydol gael systemau a pholisiau tebyg i'r isod:

- **Addysg:** defnyddio trethi i gasglu arian er mwyn creu system addysg sy'n agored i bawb a lle nad yw lefel yr addysg a gaiff yr unigolyn yn dibynnu ar ba mor gyfoethog yw ef neu ei deulu.
- **Iechyd:** defnyddio trethi i gasglu arian er mwyn creu system gofal iechyd sy'n agored i bawb a lle nad yw'r gofal a gaiff yr unigolyn yn dibynnu ar ba mor gyfoethog ydyw a'i allu i dalu am wahanol driniaethau.
- **Budd-daliadau:** defnyddio trethi i gasglu arian er mwyn creu cronfa ariannol y gall pawb droi ato am help ar adeg anodd iddynt, er enghraifft os ydynt allan o waith ac yn ceisio

RHYDDFRYDIAETH

byw heb gyflog rheolaidd; wedi cael damwain neu salwch difrifol sy'n golygu na allant weithio am gyfnod hir.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o raglenni polisi cymdeithasol y mae Rhyddfrydwyr Modern yn credu ynddynt er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Rhwng y 1930au a'r 1970au, pan oedd syniadau'r Rhyddfrydwyr Clasurol fwyaf poblogaidd y gwelwyd rhaglenni tebyg i hyn yn datblygu, er enghraifft ar draws Gogledd America a Gorllewin Ewrop. Ond ers y 1970au, cafodd y syniadau hyn eu beirniadu a gwelwyd syniadau'r Rhyddfrydwyr Clasurol a neo-ryddfrydiaeth yn dod yn fwy poblogaidd,

Pam fod Rhyddfrydwyr Clasurol yn dadlau yn erbyn y systemau addysg, iechyd a budd-daliadau cyhoeddus hyn? Oherwydd eu bod yn credu mewn unigolyddiaeth a rhyddid nid ydynt yn hoffi'r syniad o'r wladwriaeth yn ymyrryd yn gymdeithasol, ac yn enwedig os yw'n golygu codi arian drwy drethi cyffredinol. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r Rhyddfrydwyr Clasurol yn meddwl am yr unigolyn fel rhywun cwbl annibynnol sy'n 'berchen' ar ei gorff ac ar ei allu personol. O ganlyniad, yr unigolyn yn unig sydd i gael y clod am lwyddo yn ystod ei fywyd. Ac ef yn unig fydd berchen unrhyw gyfoeth y mae wedi llwyddo i'w gasglu yn ystod ei fywyd – nid oes arno unrhyw ddyled na diolch i'r gymdeithas. Felly mae'r Rhyddfrydwyr Clasurol yn credu bod rhyddid yr unigolyn yn golygu na ddylai eraill, gan gynnwys y wladwriaeth, ymyrryd yn ei fywyd ac effeithio ar ei allu i gasglu cyfoeth fel y dymuna. Mae hyn wedi cynnwys dadlau na ddylid gorfodi'r unigolyn i dalu arian i'r wladwriaeth er mwyn helpu i gynnal gwasanaethau cyhoeddus. Dadleuwyd y byddai gorfodi'r unigolyn i wneud hyn yn dwyn ei ryddid a dwyn ei eiddo, gan na fyddai'r wladwriaeth yn gadael iddo fyw ei fywyd fel y dymunai. Gwelir y safbwynt hwn yng ngeiriau'r athronydd Americanaidd Robert Nozick, '*Taxation of earnings from employment is on a par with forced labour*' (1974: 169).

7. Rhyddfrydiaeth a'r economi

Mae pob rhyddfrydwr yn credu bod economi marchnad rydd yn bwysig. Fodd bynnag mae gan ryddfrydwr safbwyntiau gwahanol ynglŷn â faint o gamau y dylai'r wladwriaeth gymryd er mwyn ceisio rheoleiddio a llywio'r economi. Mae ateb gwahanol ryddfrydwr i'r cwestiwn hwn yn dibynnu ai rhyddfrydwr clasurol neu fodern ydynt.

7.1 Syniadau *laissez-faire*

Mae Rhyddfrydwr Clasurol wedi dadlau o blaid safbwynt *laissez-faire* sy'n dweud na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd o gwbl yn yr economi. Golyga hyn bod rhyddfrydwr clasurol, dros y blynyddoedd, wedi gwrthwynebu mesurau'r wladwriaeth i reoleiddio'r economi, er enghraifft:

- Mesurau sy'n cyfyngu ar hyd y diwrnod gwaith.
- Mesurau sy'n rhoi lleiafswm cyflog i bob gweithiwr.
- Mesurau sy'n rhoi safonau iechyd a diogelwch y dylai pob cyflogwr gadw atynt.
- Mesurau sy'n rhoi safonau amgylcheddol y dylai cwmnïau a diwydiannau gadw atynt.

Roedd gwaith economegwyr clasurol y 18fed ganrif, fel Adam Smith a David Ricardo wedi dylanwadu ar y safbwynt yma. Mae llyfr enwocaf Smith, *The Wealth of Nations* (1776), yn dal i gael ei ddarllen gan bobl hyd yn oed heddiw. Mae'n defnyddio rhai o egwyddorion sylfaenol rhyddfrydiaeth glasurol, fel rhyddid negyddol a gwladwriaeth gyfyngedig, ar gyfer yr economi. Ysgrifennai Smith mewn cyfnod pan oedd gwladwriaethau yn rheoleiddio tipyn ar yr economi. Er enghraifft, trwy'r 15eg ganrif a'r 17eg ganrif, roedd llawer yn credu y dylai gwladwriaethau ymyrryd yn yr economi er mwyn cynyddu faint o nwyddau a oedd yn cael eu hallforio, ond ar yr un pryd, lleihau faint o nwyddau a oedd yn cael eu mewnforio. Un prif reswm dros ysgrifau economaidd Smith oedd ei fod am ymosod ar y syniad hwn a dangos y byddai'n llawer gwell pe bai'r wladwriaeth ddim yn ymyrryd o gwbl yn yr economi. I ddechrau, dadleuodd Smith os oedd y wladwriaeth yn ymyrryd yn yr economi, roedd yn cyfyngu ar ryddid pobl, er enghraifft rhyddid perchnogion cwmnïau i benderfynu pa nwyddau i'w cynhyrchu, i bwy roeddent am eu gwerthu ac am ba bris; rhyddid gweithwyr i benderfynu i bwy roeddent am weithio, am faint o gyflog ac am faint o amser bob wythnos; a rhyddid cwsmeriaid i benderfynu pa nwyddau yr hoffent eu prynu. Hefyd, yn ogystal â rhoi mwy o ryddid economaidd i unigolion, credai Smith y byddai'r economi yn llawer mwy hyblyg ac effeithiol, pe byddai'r wladwriaeth yn peidio ymyrryd. Credai Smith y dylid meddwl am yr economi fel marchnad sy'n medru trefnu a rheoleiddio ei hun. O ganlyniad, ni ddylai'r wladwriaeth ymyrryd, er enghraifft pan fydd diweithdra neu chwyddiant, gan adael i 'law ddirgel' y farchnad ddelio â nhw.

Yn fwy diweddar, cafwyd dadleuon tebyg i rai Smith gan rai o feddylwyr neo-ryddfrydol y Dde Newydd, megis Freidrich von Hayek a Milton Freedman. Gellir dadlau bod y rhain a'r gwleidyddion a oedd yn dilyn eu syniadau, fel y cyn Brif Weinidog, Margaret Thatcher, wedi rhoi hyd yn oed fwy o bwyslais ar fanteision marchnad rydd ac unigolyddiaeth a phrynwriaeth nag y gwnaeth Smith ganrifoedd ynghynt. Roedd Smith yn arbennig yn rhoi pwyslais ar werth moesol y farchnad a'i chyfraniad at y gymdeithas, tra bod neo-ryddfrydwr fel Thatcher yn cwestiynu'r holl syniad o gymdeithas a chydweithio er lles pawb. Dyma safbwynt yr athronydd

RHYDDFRYDIAETH

Americanaidd, Robert Nozick – sydd yn dweud mai casgliad o unigolyn ydym sydd yn dewis p'un ai i gydweithio gydag eraill neu beidio, a hynny am resymau personol yn unig. Un arall o syniadau pwysicaf y neo-ryddfrydwyr presennol yw'r gred bod y farchnad yn effeithlon ac y bydd wastad yn well na rheoli'r wladwriaeth yn wleidyddol. Er enghraifft, dywedodd Hayek bod cynllunio a rheoleiddio gan y wladwriaeth yn araf ac yn aneffeithiol, nid yn unig gyda materion economaidd traddodiadol, ond hefyd gyda pholisi cymdeithasol. Dyma sydd y tu ôl i'r syniad o gyflwyno egwyddorion y farchnad wrth gynnis gwasanaethau pwysig fel iechyd. Credir y bydd hyn yn arwain at wasanaeth mwy dynamig fydd yn ymateb yn well i ddisgwyliadau'r 'cwsmer'.

7.2 Rheolaeth economaidd

Yn groes i'r safbwynt *laissez-faire*, mae'r rhai sydd yn rhyddfrydwyr modern yn credu y dylai'r wladwriaeth fod yn barod i chwarae rôl fwy actif yn yr economi. Mae gwaith yr economegydd John Maynard Keynes, ac yn enwedig ei lyfr *The General Theory of Employment, Interest and Money* (1936) yn credu hyn. Roedd Keynes yn cwestiynu a allai'r farchnad reoleiddio'i hun, a delio â phroblemau economaidd fel diweithdra heb i'r wladwriaeth ymyrryd.

Credai Keynes mai'r ffactor pwysicaf i economi llwyddiannus, a'r swyddi a fyddai'n dilyn, yw'r 'galw' cyffredinol a geir o fewn yr economi. Dadleuodd y gallai'r wladwriaeth gymryd camau i lywio'r economi drwy gynyddu'r lefel o alw. Gellid gwneud hyn naill ai drwy benderfynu codi lefel gwariant cyhoeddus neu drwy dorri trethi. Felly, mewn cyfnod economaidd anodd, lle mae diweithdra yn cynyddu, un opsiwn posib fyddai i'r wladwriaeth fuddsoddi mewn prosiectau ar gyfer adeiladu ysgolion, ysbytai neu ffyrdd newydd. Credai Keynes y byddai defnyddio arian cyhoeddus fel hyn yn gwella'r economi mewn sawl ffordd gwahanol. I ddechrau byddai sectorau eraill o'r economi yn manteisio, gan y byddai angen prynu llawer o wahanol ddefnyddiau ar gyfer y prosiectau adeiladu newydd. Hefyd byddai angen cyflogi gweithwyr newydd (e.e. peirianwyr, adeiladwyr, crefftwyr), a byddai'r bobl hyn yn ennill cyflogau a bydden nhw wedyn yn gwario'r arian yn yr economi. Felly, os byddai'r wladwriaeth yn ymyrryd yn ariannol, byddai'r economi'n gyffredinol yn tyfu.

Roedd syniadau Keynes yn ddylanwadol iawn am gyfnod hir yn yr 20fed ganrif, yn enwedig rhwng y 1930au a'r 1970au, yn enwedig ar draws Gogledd America a Gorllewin Ewrop. Ond, wrth i nifer o wladwriaethau'r gorllewin gael cyfnod ariannol anodd yn ystod y 1970au, rhoddwyd mwy o sylw i syniadau neo-ryddfrydol pobl fel Hayek a Friedman a'r pwyslais ar bolisiau *laissez-faire*. Ond gwnaeth nifer o wladwriaethau'r gorllewin droi yn ôl at rai o egwyddorion Keynes, ac yn enwedig ei ddadl dros ddefnyddio gwariant cyhoeddus er mwyn codi'r economi am gyfnod yn dilyn problemau ariannol rhyngwladol mawr yn 2008.

8 Rhyddfrydiaeth yng ngwleidyddiaeth Cymru

8.1 Tarddiad y Blaid Ryddfrydol

Tra bod elfennau o ryddfrydiaeth wedi dylanwadu ar wleidyddiaeth y wladwriaeth trwy'r 18fed ganrif, ni chafwyd Rhyddfrydiaeth wleidyddol swyddogol yn y Deyrnas Unedig tan etholiad 1868, pan ffurfiwyd y Blaid Ryddfrydol. Ond roedd agweddau ar ryddfrydiaeth wedi dylanwadu'n fawr ar y wladwriaeth cyn hynny.

Etholiad 1868 oedd yr etholiad cyntaf yn dilyn pasio'r Ddeddf Ddiwygio yn 1867, a roddodd y bleidlais i ddynion oedd yn berchen tŷ neu'n talu rhent o £10 yn y bwrdeistrefi. Gwelwyd nifer y pleidleiswyr yn treblu, gan gyrraedd dros filiwn o ddynion am y tro cyntaf.

Daeth tri grŵp at ei gilydd – y Chwigiadaid, y Peelites a'r Radicaliaid – a dyma oedd y Blaid Ryddfrydol.

Roedd y Chwigiadaid yn mynd yn ôl i'r 17eg ganrif. Yn wahanol i'w gwrthwynebwyr – y Torïaid – roedden nhw'n credu bod y Senedd yn gorff uwch na'r Frenhiniaeth. Grŵp bach o'r Ceidwadwyr oedd y Peelites a oedd yn cefnogi Robert Peel, sef arweinydd y blaid yn 1846. Masnach rydd oedd eu prif ddiddordeb. Roedd y radicaliaid yn grŵp a oedd yn pwysleisio'r angen am roi'r bleidlais i fwy o bobl, a chredent yn rhyddid y wasg a chefnogi'r tlawd.

Yn y cyfnod hwnnw nid oedd gan Gymru llawer o gynrychiolaeth, y tirlfeddianwyr oedd â'r dylanwad i gyd ac roedd llawer am weld newid. Felly, nid syndod oedd gweld y genedl yn troi yn rhyddfrydol erbyn diwedd y ganrif, yn enwedig wedi'r ddeddf ddiwygio yn 1884, a roddodd y bleidlais i ddynion oedd yn berchen ar gartref neu'n talu £10 rhent yn y siroedd, hefyd. Yn 1832, 32 sedd oedd yng Nghymru, ac 14 ohonynt wedi'u dal gan y Torïaid, 18 gan y Chwigiadaid. Erbyn 1868 roedd y Blaid Ryddfrydol wedi ffurfio'n swyddogol ac wedi ennill 23 o'r 33 sedd, ac erbyn 1885, enillon nhw 29 o'r 33 sedd.

8.2 Radicaliaeth gynnar y Cymry

Unwaith eto, mae Richard Price yn ffigur canolog gan ei fod yn cael ei gysylltu gyda'r radicaliaid, y grŵp a oedd fwyaf perthnasol i sefyllfa'r Cymry. Er nad oedd y Cymry yn gyfarwydd â'i syniadau yn ystod ei oes ef (1723-1791), roedd y gwerthoedd a safodd drostynt yn rhai amlwg yn rhyddfrydiaeth Cymru yn y 19eg ganrif.

Roedd ei bwyslais ar ryddid y wasg, rhoi'r bleidlais i fwy o bobl a sicrhau bod y llywodraeth yn atebol yn sylfaen i'r math o wleidyddiaeth roedd y Cymry yn gweithio tuag ato. Roedd Williams Jones, Llangadfan yn byw yn yr un cyfnod, ac arhosodd ef yng Nghymru. Roedd yn enwog am gefnogi'r Chwyldro Ffrengig, ac roedd yn annog y Cymry i symud i'r Unol Daleithiau er mwyn bod yn rhydd o afael y wladwriaeth Brydeinig.

RHYDDFRYDIAETH

Mudiad academiaidd a phoblogaidd oedd radicaliaeth gynnar a datblygodd yn y 19eg ganrif wrth iddo gael ei gysylltu ag achosion fel Siartaeth, a oedd yn gofyn am roi'r bleidlais i fwy o bobl. Roedd radicaliaeth yn boblogaidd iawn yn Ne Cymru oherwydd ei bod yn ardal ddiwydiannol.

Roedd mudiadau fel y 'Scotch Cattle' yn fwy milwriaethus ac yn cosbi'r gweithwyr os nad oeddent yn barod i gefnogi gweithredu diwydiannol. Hefyd, digwyddodd Helynt Beca yn 30au a 40au'r ganrif, lle'r oedd ffermwyr cefn gwlad Cymru yn ymosod ar y tollbyrth, a oedd yn casglu trethi am ddefnyddio'r ffyrdd.

8.3 Anghydfurfiaeth a Rhyddfrydiaeth

Ni ellir deall twf a dylanwad rhyddfrydiaeth yng Nghymru heb hefyd ddeall y newidiadau crefyddol oedd wedi newid y genedl yn ystod hanner cyntaf y 19eg ganrif.

Dyma'r cyfnod pan welwyd Anghydfurfiaeth, neu Ymneilltuaeth yng Nghymru, yn tyfu. Sectau Cristnogol oeddent, a oedd am dorri i ffwrdd oddi wrth Eglwys Lloegr a chynnal gwasanaethau gwahanol mewn capeli yn hytrach nag Eglwysi. Un o'r sectau hyn oedd yr Undodiaid, ac nid oeddent yn credu yn y syniad o'r Drindod. Roedd Richard Price yn aelod o'r Undodiaid ac roedd wedi bod yn amlwg iawn dros radicaliaeth.

Yn ogystal â'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr (enwadau a ddechreuodd yn y 17eg ganrif) y Methodistiaid oedd y sect newydd, nerthol sy'n cael ei gysylltu gyda thrawsnewid Cymru i fod yn genedl o anghydfurfwyr. Cafwyd 'diwygiad' Methodistiaidd yn y 18fed ganrif dan arweiniad Howell Harris a William Williams Pantycelyn. Er eu bod yn wreiddiol yn rhan o Eglwys Loegr, erbyn dechrau'r 19eg ganrif roeddent wedi gadael ac yn rhoi egni newydd i'r mudiad anghydfurfiol.

Y tu ôl i'r mudiad yma oedd dymuniad i wella bywyd mwyafrif y boblogaeth yng Nghymru, y dosbarth gweithiol a'r dosbarth canol. Erbyn dechrau'r 20fed ganrif, gwelwyd yr 'efengyl gymdeithasol' a oedd yn gofyn am gyfiawnder cymdeithasol yn enw Duw.

Cafodd yr egni crefyddol, cymdeithasol yma ei gysylltu gan arweinwyr y mudiad gyda'r Blaid Ryddfrydol. Roedd y blaid honno yn gallu manteisio ar yr holl newidiadau cymdeithasol a'r radicaliaeth pan ddiwygiwyd y system bleidleisio yn 1867. I bob pwrpas roedd Cymru eisoes yn genedl 'ryddfrydol' oherwydd ei chrefydd, ei gwleidyddiaeth a'i daliadau cymdeithasol. Rhwng etholiad 1868 ac etholiad 1888 (pan roddwyd y bleidlais i fwy o bobl eto), daeth y genedl anghydfurfiol i fod yn genedl ryddfrydol hefyd.

8.4 Y Cymry Rhyddfrydol

Roedd nifer o bobl enwog yn y cyfnod yn rhan o'r datblygiadau yma, ac un ohonynt oedd Henry Richard, a ddaeth yn aelod seneddol Merthyr Tudful yn 1868. Roedd ef yn credu mewn democratiaeth, roedd yn cefnogi heddychiaeth ac roedd yn siarad o blaid ffermwyr cefn gwlad Cymru. Roedd heddychiaeth yn rhan o'r agenda rhyddfrydol-anghydfurfiol. Roedd diddordeb newydd mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru yn y cyfnod hwn – '*The Rebirth of a Nation*', yn ôl yr hanesydd K.O. Morgan. Deddf Cau'r Tafarndai ar y Sul yn 1881 oedd y ddeddf gyntaf i gael ei basio gan Senedd San Steffan ar gyfer Cymru'n unig ers y Deddfau Uno gyda Lloegr yn ôl yn

RHYDDFRYDIAETH

1542. Digwyddodd hyn oherwydd dylanwad anghydfurfiaeth, a'r mudiad Dirwest. Yna cafwyd Deddf Addysg Ganolradd Cymru yn 1889, oedd yn ariannu ysgolion canolradd i Gymru. Canlyniad blynyddoedd o ymgyrchu oedd hyn, yn dilyn llwyddiant sefydlu Prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd.

Yn ail hanner y ganrif daeth ffigurau eraill yn enwog, a nifer ohonynt, fel Michael D. Jones, T.E. Ellis a'r Lloyd George ifanc yn uno eu syniadau rhyddfrydol gyda chenedlaetholdeb yn ogystal. Roedd Michael D. Jones yn feirniadol iawn o'r Wladwriaeth Brydeinig a'r effaith yr oedd yn cael ar ddiwylliant ac iaith Cymru. Am y rheswm hwn felly, roedd yn gefnogol iawn o'r cynllun i sefydlu Gwladfa ym Mhatagonia. Ymunodd T.E. Ellis a Lloyd George gyda *Cymru Fydd*, mudiad a ffurfiwyd yn 1886 gan rai o Gymry Llundain yn wreiddiol, ac roeddent am weld hunanlywodraeth i Gymru. Er y bu llawer o gyffro a diddordeb, daeth y mudiad i ben, yn rhannol oherwydd bod aelodau yn y De a'r Gogledd yn anghytuno – ond yn fwy tebygol oherwydd nad oedd gwreiddiau dwfn gan y mudiad nac apêl torfol.

Aeth Lloyd George ymlaen i fod yn Ganghellor ac yn Brif Weinidog mewn llywodraeth Ryddfrydol. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd gwleidyddiaeth yn trawsnewid. Yn 1910 pasiwyd 'Cyllideb y Bobl', a oedd yn gosod trethi sylweddol ar y dosbarth uwch a'u tiroedd er mwyn cael arian ar gyfer rhaglen lles cymdeithasol.

Gellir gweld syniadau Lloyd George a rhyddfrydiaeth y Cymry o'r cyfnod yma yng ngwaith Syr Henry Jones, un o aelodau mudiad y 'Delfrydwyr Prydeinig' (*British Idealists*). Roedd syniadau'r grŵp yma yn sail i ryddfrydiaeth fodern. T.E. Green oedd y mwyaf enwog ohonynt. Roedd yn pwysleisio'r ffaith bod yr unigolyn yn dibynnu ar y wladwriaeth a'r gymdeithas a bod angen gofal 'o'r crud i'r bedd'. Roedd yn gweld rôl llywodraeth fel un sy'n ymyrryd, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn datblygu. Y grŵp hwn heriodd ryddfrydiaeth glasurol gan bwysleisio syniadau fel 'rhyddid cadarnhaol'.

Mewn ysgrif gan Henry Jones yn y Gymraeg, *Dinasyddiaeth Bur* (1911), gwelir hefyd y gwahaniaeth rhwng rhyddfrydiaeth a'r mudiad gwleidyddol newydd oedd yn dod yn boblogaidd yng Nghymru, sef Sosialaeth. Gofynna Jones i'w ddarllenwyr, sef chwarelwyr gogledd Cymru, i beidio dilyn syniadau chwyldroadol a oedd yn rhoi anghenion y dosbarth gweithiol uwch ben anghenion eraill. Credai ef bod angen i bob dosbarth cymdeithasol weithio gyda'i gilydd er lles pawb, ac mai dyma yw dinasyddiaeth bur.

8.5 Tranc Rhyddfrydiaeth yng Nghymru

Yn wir, dechrau'r 20fed ganrif oedd uchafbwynt Rhyddfrydiaeth fel plaid wleidyddol yng Nghymru, ond hefyd roedd yn ddechrau ar ddiwedd dylanwad rhyddfrydiaeth. Roedd Sosialaeth yn ddylanwad mawr yn yr ardaloedd diwydiannol, wrth gwrs, ac roedd y Blaid yn wynebu problemau gydag Iwerddon a'r mudiad Swffragét.

Yna fe ddaeth y Rhyfel Byd Cyntaf a oedd yn sioc anferth, ac erbyn diwedd yr 1920au, y Blaid Lafur oedd y blaid flaengar yng ngwleidyddiaeth Prydain. Aeth nifer o'r ffigurau enwog ymlaen i

RHYDDFRYDIAETH

weithio dros achosion eraill, fel David Davies a fu'n gweithio dros heddwch, ond roedd dylanwad y Blaid fel plaid Seneddol yn parhau mewn ardaloedd amaethyddol fel Ceredigion a Phowys.

Yn wir, yn 2017 methodd y Blaid â dychwelyd yr un aelod Seneddol i San Steffan am y tro cyntaf ers dros ganrif. Mae dal i fod un Aelod Cynulliad, sef Kirsty Williams, sydd mewn clymblaid gyda'r Blaid Lafur ac mae hi'n dal swydd fel y Gweinidog dros Addysg.

Ac eto, er bod y blaid wedi dirywio'n araf nes bod ganddi fawr ddim dylanwad (yr un pryd ag y bu i'r Capeli ddirywio) y gwir yw bod gwerthoedd Rhyddfrydiaeth yn rhan bwysig o Gymru fel cenedl. Gellir dweud bod y Blaid wedi dirywio cymaint am fod syniadau 'rhyddfrydol' wedi llwyddo i ddod yn ganolog yn y gymdeithas.

RHYDDFRYDIAETH

9 Rhyddfrydiaeth a gwleidyddiaeth fyd-eang

9.1 *Cyd-destun Rhyddfrydiaeth a Realiaeth*

Er bod rhyddfrydiaeth yn safbwynt canolog iawn mewn gwleidyddiaeth heddiw, mae'r sefyllfa'n wahanol iawn yn rhyngwladol. Mewn rhai rhannau o'r byd mae syniadau rhyddfrydol yn cael eu beirniadu'n llym. Dyma'r safbwynt *realiaidd*, sydd yn ystyried bod y system ryngwladol mewn cyflwr o anarchiaeth.

Dyma sefyllfa lle nad oes un grym yn cadw trefn ar bawb. Dyma ysgol o feddwl sy'n gwrthod yr angen am wladwriaeth, ac sy'n credu y byddai bywyd pobl wedi'i drefnu'n well o dan drefn arall, ddatganoledig.

Yn rhyngwladol, disgrifir y sefyllfa draddodiadol o genedl-wladwriaethau yn un 'anarchaidd' oherwydd nid oes gwladwriaeth na grym tebyg yn cadw trefn ar y cyfan ohonynt. Gwelir cystadleuaeth a gwrthdaro mewn gwleidyddiaeth ryngwladol, a dylai gwleidyddion felly roi pwyslais ar ddiogelwch a pharatoi am gystadleuaeth a'r posibilrwydd o ryfela.

Mae rhyddfrydiaeth yn gwrthwynebu'r agwedd hon, gan obeithio y gallwn symud ymlaen oddi wrth y gwrthdaro, tuag at gyfundrefn ryngwladol sydd yn cydweithio, ac o bosib, lle ceir cyfiawnder.

9.2 *Y Traddodiad o Ryddfrydiaeth Ryngwladol*

Er mwyn gweld pryd ddechreuodd y syniad yma, edrychwn yn ôl at gyfnod Richard Price, gan gyfeirio at ei waith ef ac yn arbennig at waith Immanuel Kant o wlad Prwsia. Fel eraill yn Oes y Goleuad, credent fod pobl yn medru rhesymu a chynigiodd y ddau ohonynt syniadau ar gyfer sefydlu cyfundrefn ryngwladol ffederal (fel yr Undeb Ewropeaidd ond ar raddfa fyd-eang).

O dan y drefn, byddai gan wledydd y byd berthynas gyfreithiol, gyfeillgar â'i gilydd, a byddent yn cydweithio er mwyn sicrhau heddwch parhaol. Mae hyn yn debyg i sefyllfa'r Cenhedloedd Unedig heddiw, ond byddai gan y corff llywodraethol hwnnw lawer mwy o rym. Byddai'r gyfraith yma yn llawer mwy pwerus, a byddai'n rhaid i wledydd pwerus y byd gadw ati. Mae hyn yn wahanol er enghraifft, i pan aeth yr Unol Daleithiau, Prydain a gwledydd eraill i ryfel yn Iraq, yn groes i ddymuniad y Cenhedloedd Unedig.

9.3 *Rhyddfrydiaeth ac Ymerodraeth*

I raddau helaeth, mae'r gyfundrefn ryngwladol heddiw yn adlewyrchu'r berthynas hanesyddol rhwng gwledydd, pan oedd rhai gwledydd yn rheoli eraill. Mae'r strwythur heddiw yn debyg i oes yr Ymerodraeth gyda'i uchafbwynt yn y 19eg ganrif. Dyma gyfnod pan oedd gwledydd Ewropeaidd pobl wyn (ac erbyn hynny, gwledydd fel yr Unol Daleithiau lle'r oedd pobl wyn yn rheoli'r bobl frodorol) yn rheoli rhannau helaeth o'r byd.

Nid oedd rhyddfrydiaeth prif ffrwd y cyfnod hwn yn gwrthwynebu'r drefn yma, ac nid oeddent yn cwestiynu cyfiawnder y sefyllfa. Roeddent yn credu bod Ymerodraeth yn rym da oedd yn gallu dod â chyfiawnder i wledydd eraill. Roedd y Rhyddfrydwr a'r Cymro enwog, Henry Richard, er

RHYDDFRYDIAETH

yn cwestiynu elfennau o'r drefn ryngwladol ac yn anghytuno'n gryf â'r trais a ddefnyddiai pwerau'r gorllewin, nid oedd yn codi cwestiynau ynglŷn â'r anghydraddoldeb grym rhwng y gwledydd. Roedd Henry Jones, a oedd yn adlewyrchu nifer o syniadau rhyddfrydol ar ddechrau'r 20fed ganrif, eto'n parhau i weld yr Ymerodraeth fel grym da, grym a fedrai wella amgylchiadau pobl anwaraidd y byd.

Dyma fersiwn o'r syniad 'baich y dyn gwyn' (fel y soniodd Rudyard Kipling yn ei gerdd). Dyma'r syniad ei bod hi'n ddyletswydd ar bobl wyn i reoli pobl eraill y byd er mwyn eu helpu i ddatblygu a'u helpu'n ddiwylliannol, economaidd a chymdeithasol. Dyma oedd y cenhadon yn ei gredu wrth gwrs, wrth iddynt deithio'r byd er mwyn lledaenu Cristnogaeth ac 'achub' eneidiau. Er mai pwrpas moesol a chrefyddol oedd ganddynt, anodd yw edrych yn ôl heb feirniadu'r agwedd yma, yn enwedig wrth gofio bod y trefedigaethu yn defnyddio grym i reoli, ac yn ecsploetio'n economaidd, ac yn defnyddio trais ar sail hiliaeth bur.

Mae'r safbwynt 'blaengar' rhyngwladol yma i'w weld yn amlwg yng ngwaith Cymro arall, sef y Barwn David Davies. Roedd yn un o nifer o'r meddylwyr oedd yn cael eu galw yn 'Ddefrydwyr'. Gwnaethant ymateb i'r Ail Ryfel Byd drwy bwysleisio'r syniad rhyddfrydol o gael cyfundrefn gyfreithiol fyd-eang a'r gobaith am heddwch (heddiw mae 'Teml Heddwch' David Davies yng nghanol dinas Caerdydd). Eto, mae dylanwad yr ymerodraeth yn y drefn a awgrymir gan Davies, sydd yn rhoi'r cyfrifoldeb a'r grym yn y pen draw, i wledydd gwyn y gorllewin.

9.4 Rhyddfrydiaeth Ryngwladol Gyfoes

Gellir dadlau bod y safbwynt yma wedi parhau i mewn i ail hanner yr 20fed ganrif. Ond wedi'r Ail Ryfel Byd cafwyd syniadau a oedd yn mynd y tu hwnt i safbwynt y gorllewin ac yn rhoi mwy o bwyslais i bobl drwy'r byd i gyd.

Roedd y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol yn adlewyrchu'r newid yma. Ceisiwyd dod â syniadau at ei gilydd a oedd yn adlewyrchu anghenion pawb dros y byd i gyd. Dyma safbwynt rhyddfrydol mwy radical, oedd yn gofyn am fwy o gyfiawnder i'r rhannau hynny o'r byd oedd wedi dioddef o dan y system ymerodraethol.

Cafwyd nifer o'r safbwyntiau yma yng ngwaith meddylwyr a oedd yn ceisio defnyddio'r syniad o 'gyfiawnder cymdeithasol' gan Ryddfrydwyr Modern yn y sefyllfa ryngwladol. Roedd nifer ohonynt yn dilyn syniadau'r Americanwr John Rawls, a'i syniadau am ailddosbarthu adnoddau rhwng gwledydd.

Er enghraifft, dadleuodd Charles Beitz, ac yn ddiweddarach Thomas Pogge, y gellid cyfiawnhau ailddosbarthu cyfoeth o wledydd cyfoethog y byd i'r rhai tlawd. Mae'r safbwynt 'cosmopolitan' hwn yn gofyn am ddiogelu ein statws fel unigolion, lle bynnag yr ydym yn byw yn y byd, a dylai'r gyfundrefn ryngwladol gael ei newid er mwyn sicrhau bod hawliau sylfaenol gan bob unigolyn.

Ochr yn ochr â'r ddadl, mae'r drefn ryngwladol bellach yn gofyn am gymaint o gydweithio fel ei bod yn rhesymol ei ystyried yn debyg i drefn y wladwriaeth. Oherwydd mae ailddosbarthu cyfoeth nid yn unig yn bosib, ond i'w ddisgwyl o safbwynt moesol. Dyma symud yn bell iawn o'r

RHYDDFRYDIAETH

syniad realaidd o wleidyddiaeth ryngwladol fel cyflwr o anarchiaeth, gwrthdaro a rhyfela – tuag at weledigaeth o'r byd fel un gymdeithas sydd yn cydweithio.

Roedd Rawls ei hun yn cefnogi hyn, ond yn gweld mwy o werth a phwysigrwydd i rôl draddodiadol y wladwriaeth. Nid oedd ei syniadau ef yn mynd mor bell; credai y dylai gwledydd tlawd y byd greu sefydliadau gwleidyddol mwy grymus a sefydlog i sicrhau eu bod yn cael eu llywodraethu'n gyfiawn yn y tymor hir. Roedd ei 'ddyletswydd o gymorth' yn cwestiynu gwerth aiddosbarthu gormod o arian ac adnoddau, oherwydd iddo ef, y gallu i ddefnyddio'r adnoddau oedd yn bwysig.

Er bod safbwynt 'cymunedolaidd' Rawls yn fwy ceidwadol na'r safbwynt 'cosmopolitan', mae'r ddau safbwynt yn credu yn y syniad rhyddfrydol o symud tuag at gyfundrefn heddychlon a chyfiawn, ac yn wir mae Rawls yn nodi mai Kant oedd y prif ddylanwad arno.

Mae agweddau economaidd o'r traddodiad rhyddfrydol clasurol yn aml yn hollol groes i safbwyntiau Rawls, Beitz a rhyddfrydwyr modern eraill, yn enwedig gydag astudiaethau datblygiad. Dyma bwnc sydd yn edrych ar sut mae gwella cyflwr cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol gwladwriaethau llai 'datblygedig' yn y byd mwyafrifol. Gwelir y safbwynt yma yn 'Cydsyniad Washington' a ddatblygodd yn y 1990au, ac oedd yn pwysu ar wledydd llai datblygedig i leihau dylanwad y wladwriaeth, gan gopio agenda neo-ryddfrydiaethol Thatcher ac eraill, a chaniatáu llawer mwy o ddylanwad i farchnadoedd a'r sector preifat. Gwelwyd yn fuan bod angen mesurau eraill fel strwythurau gwladwriaethol cadarn i gefnogi'r farchnad, a hefyd telerau economi byd-eang tecach, a fyddai'n newid strwythurau a oedd yn ffafrio mantais hanesyddol y gwledydd Ewropeaidd a Gogledd America. Mae hanes yr economegydd Jeffrey Sachs yn dangos y datblygiadau yma. Bu ef yn gyfrifol am y 'shock therapy' yng Ngwlad Pwyl yn y 1990au ac am wthio polisïau neo-ryddfrydol, ond erbyn y mileniwm newydd roedd wedi newid ei feddwl ac yn credu'n gryf mewn ymyrraeth a chefnogaeth ariannol gan y byd mwyafrifol.

Erbyn hyn, mae'r drafodaeth am 'gyfiawnder byd-eang' yn ehangach. Mae'n gweld bod angen i'r safbwynt rhyddfrydol gysylltu'n fwy uniongyrchol â safbwyntiau o'r byd mwyafrifol, tu hwnt i Ewrop a phobl wyn. (Defnyddir y term byd mwyafrifol, a hefyd "De Global", yn lle "trydydd byd" a ddefnyddiwyd yn ail hanner yr 20fed ganrif ond na chaiff ei ddefnyddio erbyn hyn oherwydd yr awgrym o hierarchiaeth). Mae rhai yn credu y gall rhyddfrydiaeth newid ac addasu oherwydd y safbwyntiau yma – er enghraifft safbwyntiau sy'n rhoi mwy o bwyslais ar berthynas â'r amgylchedd a pharch tuag at natur. Ond, mae eraill yn credu nad yw rhyddfrydiaeth yn gallu addasu y tu hwnt i'w datblygiad hanesyddol, sydd yn rhan mor ganolog o agwedd a grym y dyn gwyn.